

heddwch

Rhif 65 > Gaeaf 2015/16 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

CASNEWYDD

Tachwedd 18 2015



Gwrthodwn
 unrhyw fath
 o ragfarn,
 culfarn a
 thrais

Nous rejetons
 toute forme
 de préjudice,
 fanatisme ou
 violence

TRIDENT

Penderfyniad 2016

ATAL TRIDENT

Ymunwch â ni ym mhrotest CND yn erbyn arfau niwclear yn Llundain ym mis Chwefror!

Cyn y penderfyniad terfynol ynglŷn ag Olynydd i Trident, mae'n bwysig dweud 'Na' i gynlluniau llywodraeth San Steffan i brynu system arfau niwclear newydd am gost yr amcangyfrifir y bydd yn £167biliwn – ac sy'n dal i gynyddu. Pe bai'r Llywodraeth yn cyflymu'r penderfyniad, hwn fydd ein cyfle i brotestio – neu i ddathlu – yn sgil eu penderfyniad.

Dyddiad i'ch dyddiadur ar gyfer 2016 – Chwefror 27ain!

Mae'r mwyafrif o bobl Prydain, yn cynnwys trwm aelodaeth plaid Lafur yr Alban, arweinydd Llafur, Jeremy Corbyn, Nicola Sturgeon yr SNP, Leanne Wood Plaid Cymru, a Natalie Bennett y Blaid Werdd yn gwrthwynebu arfau niwclear. Dydy arfau niwclear ddim yn ein diogelu; mae'r posibilrwydd o ddamweiniâu niwclear a llygredd ymbelydrol yn ein rhoi mewn mwy o berygl. Mae eu bodolaeth yn ein gwneud ni oll yn darged i derfysgwyr. Mae eu prynu, eu cynnal a'u dadgomisysu yn y pen draw yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth wario hanfodol ac mae'r



ethos o'u cwmipas yn gwyrdroi cysylltiadau rhyngwladol.

Gadewch i ni gyhoeddi'r neges o Gymru yn uchel ac yn glir: dydyn ni ddim eisiau Trident nac unrhyw arfau niwclear newydd.

Ymunwch â ni yn Llundain ar Chwefror 27ain i ddweud:

ATAL TRIDENT a DIM OLYNYDD I TRIDENT!

Cysylltiadau grwpiau lleol a all efallai eich helpu i drefnu/rhannu cludiant o'ch ardal:

GRŴP HEDDWCH A CHYFIAWNDER ABERYSTWYTH; Lotte Reimer

e: lotte.reimer@btinternet.com t: 01970 610 185

GRŴP HEDDWCH A CHYFIAWNDER ARFON; Ben Gregory

e: benica@gn.apc.org t: 01286 882134

GRŴP HEDDWCH A CHYFIAWNDER BANGOR AC YNYS MÔN; Linda Rogers a Phil Steele

e: phil_steele@btinternet.com t: 01248 490 715

GRŴP HEDDWCH A CHYFIAWNDER ABERHONDDU;

Ian Milton e: ian.milton@mypostoffice.co.uk

CND PEN-Y-BONT; Pete Thompson

e: petethommo@gn.apc.org t: 01656 648 817

GRŴP HEDDWCH A CHYFIAWNDER BRO EMLYN

jeremy@webswonder.co.uk

CAERFFILI A CHÔR COCHION CAERDYDD

e: 02920 889 514 wendya.lewis@sky.com

STOP THE WAR CAERDYDD; Adam Johannes

e: thomas_muntzer_cardiff@hotmail.co.uk

GRŴP HEDDWCH CONWY; Chris Jones

e: chris_joney@hotmail.com

GRŴP HEDDWCH A CHYFIAWNDER CWM TEIFI;

Harry Rogers e: harriboy@live.co.uk t: 01559 371 201

GWEITHREDU DROS HEDDWCH A CHYFIAWNDER TREFYCLO; Ann Mary Davies

e: amdskyborry@hotmail.com t: 01547 528 833

CND CASNEWYDD; Marie Walsh e: marie@riseup.net

John Cox e: DrJohnCox@aol.com t: 01495 773 495

GRŴP HEDDWCH DE SIR BENFRO; Anne a Malcolm

Gregson e: malcolm.gregson@littlewedlockgallery.co.uk t: 01834 845 868

CND ABERTAWE; Brian a Jan Jones

e: swanseacnd@phonecoop.coop t: 01792 830 330

CND CAER; Dai Owen

e: dai.owen.art@gmail.com t: 01244 679 051

Da chi, cysylltwch ag CND Cymru os oes angen help arnoch, neu os gallwch chi neu'ch grŵp drefnu cludiant, os nad yw eich manylion wedi eu cynnwys yma.

Fe roddwn y cwbl ar ein tudalen facebook.

Llafur yn Dechrau Symud yn erbyn Trident

Mae sŵn newid ym mrig y morwydd. Mae ethol Jeremy Corbyn yn arweinydd y Blaid Lafur wedi agor nifer o bosibiliadau cyffrous – nid lleiaf y posibilrwydd y gallai'r blaid fabwysiadu polisi o wrthwynebu arfau dinistr torfol, yn unol â'r rhaglen yr etholwyd ef arni, sydd hefyd, gellid tybio, yn farn mwyafrif aelodau a chefnogwyr y blaid.

Y Blaid Lafur Brydeinig

Bu bron i hynny ddigwydd yng nghynhadledd y blaid Brydeinig yn Brighton. Fe'i gwnaed yn glir gan Jeremy mewn cyfweiliadau â'r cyfryngau ei fod am gael dadl ar Trident yn y gynhadledd, gyda'r nod o gael y blaid i wrthwynebu olynnydd i Trident, a sefydlu Asiantaeth Amrywiaethu Diwydiannau Amddiffyn i ymdrin â'r canlyniadau o ran cyflogaeth.

Nid yw hi'n wir, fel yr adroddwyd gan rai o'r cyfryngau, i'r gynhadledd bleidleisio i beidio â thrafod Trident. Yr hyn a ddigwyddodd oedd y cynhaliwyd pleidlais ar ddechrau'r gynhadledd i flaenoriaethu pedwar maes polisi i'w trafod. Methodd maes materion tramor ac amddiffyn o drwch blewyn, gan ddod yn bumed allan o wyth dewis. Gyda chanlyniad amgen, mae'n debyg iawn y byddai'r cynnig cyfanswdd yn erbyn olynnydd i Trident (yn seiliedig yn bennaf ar gynnig gan Etholaeth Dwyrain Abertawe) wedi llwyddo, gan fod ganddo gefnogaeth Unsain, y CWU, UCATT, undebau'r rheilffyrdd ac, mae'n bur debyg, mwy na hanner yr etholaethau.

Grassroots Llafur Cymru

Er colli'r cyfle yn y gynhadledd Brydeinig, cyhoeddodd Jeremy y byddai trafodaeth ledled Prydain ar fater Trident, ac ymhlith y cyntaf i ymateb oedd Grassroots Llafur Cymru, mudiad y chwith a'r chwith-ganol o fewn y blaid Lafur yng Nghymru. Wedi ein CCB yng Nghaerdydd, cynhaliwyd rali, gyda chefnogaeth CND Llafur, ar y thema 'Llafur yn gwrthod llymder – Trident nesaf? Cadeiriwyd y digwyddiad gan y Cyng. Sue Lent, dirprwy arweinydd Cyngor Caerdydd ac ymgyrchydd dros heddwch ers hydoedd, a siaroddodd cyfres o ffigyrau blaenllaw yn y blaid: Ysgrifennydd yr wrthblaid dros Gymru, Nia Griffith; gweinidog iechyd Cymru, Mark

Drakeford; ac AC Gogledd Caerdydd, Julie Morgan, yn ogystal â John Cox, CND Cymru, a ymunodd â'r blaid Lafur yn ddiweddar. Esboniodd y siaradwyr yn glir ac yn rymus yr achos moesol, gwleidyddol, ariannol a strategol yn erbyn ceisio olynnydd i Trident.

Plaid Lafur yr Alban

Ers hynny, cawsom y bleidlais hanesyddol yng nghynhadledd Plaid Lafur yr Alban ar 1 Tachwedd pan bleidleisiodd 70% o'r cynrychiolwyr, yn erbyn gwrthwynebiad yr arweinyddiaeth, o

blaid cynnig â'r un cynnwys cyffredinol â'r un a fyddai wedi cael ei drafod yn Brighton, be bai dadl wedi bod. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach ac ystyried i rai aelodau Llafur yn yr Alban ddadlau, cyn yr etholiad cyffredinol, y byddai gwrthwynebu olynnydd i Trident yn "chwarae i ddwylo'r SNP" (nad oedd yn ddadl ddealladwy iawn hyd yn oed bryd hynny).

Mae'n annhebyg, yn anffodus, y caiff cynrychiolwyr yng nghynhadledd Cymru ym mis Chwefror gyfle i fynegi barn ar Trident gan fod y rheolau'n gwahardd trafod unrhyw beth nad yw'n gyfrifoldeb y Cynulliad. Ond bydd y ddadl yn sicr yn parhau, yng Ngymru fel mewn mannau eraill, a bydd y pwysau o blaid newid polisi Llafur yn parhau i dyfu.

Darren Williams, CND Llafur Cymru

heddweithredu:

CND Llafur Cymru

e: darren.s.williams@hotmail.co.uk

Cyhoeddodd CND Llafur y bydd cynhadledd yn Llundain ar 30 Ionawr 2016 i drafod agwedd y Blaid Lafur tuag at Trident a pholisi tramor yng ngoleuni ethol Jeremy Corbyn yn arweinydd. Bydd y gynhadledd yn cynnwys sesiynau ar undebau llafur a Trident, polisi tramor ac ymgyrchu seneddol yn erbyn arfau niwclear. <http://tinyurl.com/phlm7tw> www.labourcnd.org.uk
Da chi, bwcwch o flaen llaw.

Gwrthwynebu Trident: er Budd y Cyhoedd

Gweithredu uniongyrchol yn eich ardal chi. Mae ymgyrch ddiweddaraf Trident Ploughshares yn annog grwpiau ledled Cymru a Lloegr* i ddwyn achosion preifat yn erbyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn am gynllwynio i gyflawni trosedd ryfel.

Y nod yw dod â'r troseddau sy'n ymhlwg yn Trident a'r posibilrwydd o sicrhau olynedd iddo ger bron y llysoedd barn, a sicrhau dedfryd a fydd yn arwain at ddod â'r troseddau hyn i ben trwy ddiarfogi system arfau niwclear Prydain.

Mae bygythiad olynedd i Trident, y galw cynyddol gan wledydd di-niwclear ym mhedwar ban y byd am ddiafogi gwirioneddol, a'r bygythiadau cynyddol gan y pwerau niwclear yn gwneud hon yn adeg ffafriol i gychwyn herio safiad troseddol Prydain o'r newydd.

Syml

Gellwch chi, eich grŵp neu eich ffrindiau wneud hyn gyda'ch gilydd. Mae llythyr gofalus ei eiriad yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn arwyddo datganiad na fyddai'n defnyddio Trident mewn ffyrdd a fyddai'n tramgwyddo'r gyfraith ryngwladol. I wneud hyn



mor syml a rhad ag sy'n bosibl, mae cyflwyniad syml iawn i Achosion Budd Cyhoeddus yn erbyn Trident (PICAT) a dogfennau i gefnogi'r achos ar gael (gweler isod). Gellir cael esboniad mwy manwl o'r broses trwy'r cyswllt isod neu trwy gysylltu ag Angie Zelter.

Llofnodion

Meddai cyd-sefydlydd yr ymgyrch, Angie Zelter:

"Yn fy mro fy hun yn y gorau, roedd yn rhwydd iawn dod o hyd i ryw 60 o bobl i arwyddo'r llythyr. Ar yr un pryd, i arbed gwaith, dyma gasglu llofnodion fel 'Erlynwyr Hybyswyr' ar gyfer y cam nesaf. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yna awydd ymhlith y cyhoedd i'r llys archwilio'r mater. Pan awn i'r llys lleol, efallai y bydd rhai o'n bobl hyn yn fodlon dod i'r llys i fod yn dyst i'r digwyddiau."

Gorau po Fwyaf

Beth bynnag fo'r canlyniad, bydd y weithred ei hun ledled Cymru – ynghyd â gwaith gyda'r wasg – yn hysbysu pobl leol o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn arfau niwclear Prydain. At hynny, bydd yn rhaid i'r gyfundrefn gyfreithiol ymdrin â llu o ymdrechion i gael y llysoedd i archwilio cyfreithlonrwydd Trident.

heddwethredu:

Ceir llysoedd Ynadon yn Aberhonddu, Abertawe, Aberystwyth, Caerdydd, Caerfyrddin, Caernarfon, Hwlfordd, Llangefni, Merthyr Tudful, Pen-y-bont, Pontypridd, Y Coed Duon, Y Rhyl, Y Trallwng a'r Wyddgrug. Dogfennau cefnogol i'w personoleiddio ar gyfer eich ardal a'ch grŵp ar gael yma: <http://tinyurl.com/pn3gbgb>

Am sgwrs ynglŷn â'r ymgyrch neu am fwy o fanylion neu eglurhad, da chi, cysylltwch ag Angie Zelter: picat@tridentploughshares.org t: 01547 520 929.

* Mae'r drefn gyfreithiol yn yr Alban yn wahanol yn y cyswllt hwn

Yr Alban – mewn cadw â'r amserau?

Ar Dachwedd 1af pleidleisiodd Plaid Lafur yr Alban i fabwysiadu polisi sy'n gwrthwynebu olynnydd i Trident.

Ddeuddydd yn ddiweddarach yn Holyrood, cyflwynodd yr SNP gynnisg o'r enw 'Lles Nid Rhyfel' a nodai gost cynyddol adnewyddu Trident a sut y gellid gwario'r arian hwnnw mewn modd gwell. Derbyniwyd gwelliant y blaid Lafur ar asiantaeth amrywiaethu diwydiannau amddiffyn gan yr SNP. Pleidleisiodd 32 ASA Llafur (ynghyd ag aelodau Gwyrdd ac Annibynnol) gyda'r SNP, i'w gwneud hi'n 96 i 17 o blaid.

Cynigiodd blaid Werdd/ SNP welliant o blaid tynnu allan o Nato, ac roedd yn dda gallu trafod hynny hefyd, er iddo gael ei wrthod.

Pleidleisiodd arweinydd plaid Lafur yr Alban, Kezia Dugdale, a fu o blaid Trident hyd yma, dros y cynnisg, Dim ond un ASA Llafur – Jackie Baillie, Dumbarton – a fwriadodd ei phleidlais gyda'r Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Dyma adroddiad BBC Yr Alban, gyda darn ardderchog o gyfweiliad gydag Eric Wallace (Trident Ploughshares). Mae'r adroddiad yn cychwyn ar 5 mun 27 eiliad:
<http://tinyurl.com/o58b3u8>

Ceir trawsysgrif llawn o'r ddadl yn:

<http://tinyurl.com/osuhy4h>

Nawr, pe bai ond yn bosib lledaenu hyn ymhellach i'r de ac i'r gorllewin . . .



Ymlaen yn Ngwent

Wrth i ddyddiad y bleidlais dyngedfennol yn Senedd San Steffan p'run ai i adnewyddu Trident nesáu, aeth CND Cymru â'i neges wrth-niwclear allan i strydoedd y Coed Duon.

Roedd yn ddiwrnod siopa prysur wrth i ni grogi'n baneri ar baneli a gosod ein deisebau a'n taflenni allan.

Oedodd llawer o bobl i edrych ac i sgwrsio, a chafwyd tradodaeth fywiog ynglŷn â gwallgofrwydd gwario £100 - £167 biliwn ar arf na ellir byth mo'i ddefnyddio. I seiniau caneuon heddwch Côr Cochion, dosbarthwyd mwy na 500 o daflenni.

heddweithredu:

Os oes hoffech chi neu'ch grŵp ddosbarthu taflenni ar y stryd yn eich ardal chi, gall CND Cymru ddarparu deisebau, taflenni a sticeri dwyieithog.

Cysyllter â: jon@thefreeflyer.com
t: 07810 566 919



HIROSHIMA A NAGASAKI

'BYTH ETO!'

70 MLWYDDIANT HIROSHIMA A NAGASAKI



Hwlffordd

Cofiwyd Hiroshima a Nagasaki â'r neges 'Byth Eto' yn Hwlffordd ar Awst 6ed. Mynychwyd y digwyddiad prynhawol a hwyrol teimladwy a dwys, a drefnwyd gan Grŵp Heddwch Sir Benfro, gan ryw 200 o bobl. Bu Côr Bwdhaidd y Trysorau Lawer yn eu crysau-T yn dwyn y geiriau 'Trust through Friendship - Peace through Trust' yn serenadu'r ymgyrchwyr a'r cefnogwyr â'u cerddoriaeth ryfeddol am y tro cyntaf yn y cwrd d coffa hwn. Daeth y gerddoriaeth, y sgwrsio, y bywd blasus, yr areithiau a chyfarfyddiadau â hen ffrindiau i ben gyda gorymdaith yn y gwyll at lan yr afon lle hwyliwyd cychod canhwylau i lawr i Afon Cleddau.

heddweithredu:

I gael gwybod am ddigwyddiadau coffa Hiroshima / Nagasaki yn y dyfodol – neu am help gyda'ch digwyddiad eich hun, cysyllter ag CND Cymru

Parc y Rhath, Caerdydd

Cafodd 70 mlwyddiant bomio Hiroshima and Nagasaki ei goffáu ger Llyn Parc y Rhath ar Awst 9fed. Cerddodd gorymdaith â baneri a phosteri yn araf o dŵr y cloc at lan y dŵr, a thafliwyd petalau i'r llyn er cof am gannoedd ar filoedd o ddioddefwyr yr oes niwclear.

Gan gofio natur anllad yr ymosodiad ar boblogaeth sifil Japan, tanlinellodd siaradwyr ffolineb llwyr adnewyddu taflegrau niwclear Trident.

Atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol bod 'Nagasaki, fel Hiroshima, bellach yn ddinas heddwch, yn ymrwymedig i

heddwch byd-eang.

Mae gobaith yn hyn – bod dau ganolbwynt y fath anhraith a dioddefaint arswydus 70 mlynedd yn ôl yn awr yn ganolbwyntiau heddwch.'

Atseiniai'r neges yn uchel ac yn glir o bob gwynos yng Nghymru, fel yng ngweddill y byd:

'Byth eto!'



Casnewydd

Ym Mharc Tredegar, ger Casnewydd, cymerodd mwy na 50 ran mewn digwyddiad coffa gyda cherddi, geiriau a cherddoriaeth, a blodau'n arnofio ar Lyn Parc Tredegar.

Clywsant Paul Flynn, AS Gorllewin Casnewydd, neges o gydgadarnid o Hiroshima, darlleniadau, a chaneuon gan Frankie Armstrong a Côr Cochion.


Nagasaki: Life After Nuclear War

Mae cyfrol newydd Susan Southard yn atgof pwerus o'r hyn sydd yn y fantol mewn oes niwclear.

Mae Nagasaki: Life After Nuclear War yn olrhain taith anhygoel pump a orosodd, oll yn eu harddegau adeg y bomio. O 1945 tan Nagasaki heddiw, fe'u gwyliwn nhw a hibakusha (Japaneaid a orosodd fomiau niwclear) ledled y ddinas yn ymdopi â dyfodol ansicr gydag anafiadau cronig, afiechydon aciwt a hwyr-ddatblygol cysylltiedig ag ymbelydredd, a'r ofnau sy'n eu brawychu y bydd eu plant a'u hwyrion yn etifeddu anhwylderau genynnol. Nod y goroeswyr hyn yw sicrhau mai Nagasaki fydd y ddinas olaf erioed i gael ei bomio'n atomig.

Ar Awst 9fed 1945, gollyngodd UDA fom plwtoniwm 5-tunnell yn fwriadol at ddinas fechan arfordirol Nagasaki tra'r oedd arweinwyr Japan eisoes yn paratoi i ildio. Lladdodd y ffrwydrad ei hun fwy na 74,000 o bobl yn syth, gan anafu may na 75,000. Â gwres tanbaid a grym dinistriol na ellir ei ddychmygu, rhwygodd y danchwa trwy ffatrioedd,

siopau a chartrefi, gan gludo ymbelydredd a dreiddiodd i gyrff pobl ac anifeiliaid. Llygrwyd lleiniau anferth o dir a chyflenwadau dŵr. I'r



goroeswyr hynny a oedd prin wedi osgoi angau, roedd eu bywydau fel hibakusha newydd gychwyn. Dros y 70 mlynedd diwethaf, mae goroeswyr a'u disgynyddion wedi parhau i glafychu a marw o ganlyniad i'r bom Americanaidd hwnnw.

Mae'r atgofion personol dirdynol hyn sy'n tystio i ganlyniadau defnyddio arfau

niwclear yn amserol. Saith deg mlynedd yn ddiweddarach, mae Trident yn destun dadl yng Nghaeredin a San Steffan, a chlywn o hyd bod 'arfau niwclear yn ein cadw'n ddiogel' a bod arfau niwclear 'yn helpu i hyrwyddo pŵer y DU ledled y byd'.

Dyma lyfr sy'n ein hatgoffa bod pob llywodraeth sy'n cymeradwyo meddu ar arfau niwclear a'r posiblirwydd o'u defnyddio wedi gorfod twyllo eu pobl eu hunain. Mae mythau, celwydd a chyfrinachedd yn llifo o fomio Hiroshima a Nagasaki. Cadwodd polisïau'r UD ing y dioddefwyr ynghudd, yn eu gwlad eu hunain ac ym mhedwar ban y byd.

Os gwir bod 'y rheini na allant ddysgu gan hanes wedi eu tynghedu i'w ailadrodd', mae'n glir y dylai'r casgliad hwn o ffynonellau gwreiddiol fod yn ddarllen hanfodol.

Mae'n gyfrol i ni – i'n hatgoffa pam y gwnawn yr hyn a wawn – ac, yn bwysicach, i'n cynrychiolwyr etholedig a'n llywodraethau. Nid yw cyflogaeth mewn adeiladu, cynnal, a thrafod cynnyrch

anllad yr hunllef niwclear, i'w rhoi mewn dwylo na allwn ymddiried ynddynt, yn 'broiect cynhyrchu swyddi' i'w chwennych nac i'w groesawu.

Jill Gough

**Susan Southard,
Nagasaki: Life
After Nuclear War**

ISBN9780285643277 £20.00



Gwersyll yr Wylfa, hip, hip, hwrê!



Cefnogi alltudion Fukushima

Cynhaliwyd digwyddiad anhygoel rhwng y 24 a'r 26 Awst ar dir gerllaw safle gorsaf bŵer niwclear yr Wylfa ar lannau gogleddol Ynys Môn. Yn ystod y gwersyll protest tridiau o hyd a drefnwyd gan PAWB (Pobl Atal Wylfa B) cynhaliwyd seremoni efeillio i fynegi cydgadernid rhwng pobl Ynys Môn (poblogaeth 70,000) a'r bobl yn Japan (rhyw 160,000) a alludiwyd o'u cartrefi yn 2011 yn sgîl trychineb niwclear barhaus Fukushima. Anfonwyd neges fideo deimladwy gan un o drigolion Fukushima (<https://youtu.be/BN8jYPPrMXU>), ynghyd â negeuson eraill o gefnogaeth o Japan, a rhai gan CND Cymru, Greenpeace, a llu o fudiadau eraill.

Gwrth-niwcwyr yn mynd â'u neges at byrth yr Wylfa

Ymwelwyd â'r gwersyll protest a'i 30 o wersyllwyr gan yr heddlu, wrth gwrs, a gan fwy na 100 o gefnogwyr, gyda rhai'n dod o mor bell i ffwrdd â Hartlepool, yr Almaen, Iwerddon, Hinkley a Bryste. Diolch, yn enwedig, i'r criw

bywiog o Dde-orllewin Lloegr ac i'r ymgyrchwyr o'r Canolbarth.

Yn bysig iawn, mynegwyd cefnogaeth gan amrywiaeth o drigolion lleol. Rhoddodd y ffermwr lleol Richard Jones, Caerdegog, sy'n gwrthwynebu Horizon Nuclear i'r carn, fenthgys carafán i'w defnyddio fel cegin. Wedi'r areithiau, sesiynau cerddorol ardderchog, a bwyd blasus, roedd cyfle i'r gwahanol grwpiau a oedd yn bresennol gyfnewid barn. Buwyd wrthi'n dosbarthu taflenni yng Nghemaes, Tregle, Llanfechell ac Amlwch hefyd.

Horizon Nuclear 'yn chwibanu yn y tywyllwch'

Yr ail ddiwrnod, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus gorllawn yn neuadd bentref Cemaes. Tanlinellodd Sean Morris, o'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear, mor annigonol yw'r mesurau i reoli argyfwng niwclear a symud pobl o'u cartrefi. Soniodd Selwyn Jones am ei brofiadau wrth ymweld â Fukushima gyda dirprwyaeth y Groes Werdd Ryngwladol yn 2014; fel aelod o Gymdeithas yr Iaith, trafodd effeithiau ieithyddol a diwylliannol tebygol adeiladu

Wylfa B. Siarodd Dr Iain Fairlie, arbenigwr ar effeithiau ymbelydredd niwclear, yn fwy di-flewyn ar dafod nag sy'n arferol gan wleidyddion, gan arwain at y thema 'Pam y mae Horizon Nuclear yn chwibanu yn y tywyllach'. Ei neges galonogol oedd bod Hinkley C eisoes ar y creigiau ac, yn ei farn ef, bod yr holl ddadeni niwclear bondigrybwyll wedi ei ddryllio o dan yr wyneb.

Claddu pennau yn y tywod

Nodwyd yn aml yn ddiweddar bod gwleidyddion a'r cyfryngau priif-ffrwd yn stryffaglu ymhell ar ei hôl hi wrth i farn y cyhoedd a barn wyddonol ac economaidd hyddysg newid. Does unman lle mae hyn yn fwy gwir nag Ynys Môn lle mae llawer o gynghorwyr sir yn dal i fod â'u pennau wedi eu claddu yn y tywod, a lle mae'r AS Llafur a'r AC Plaid Cymru lleol o blaid ynni niwclear, polisi sy'n groes i farn arweinwyr eu pleidiau – a nifer gynyddol o bleidleiswyr.

Phil Steele

WYLFA-B (neu'r Wylfa Newydd) yw'r orsaf bŵer niwclear ddau-adweithydd yr arfaethir ei hadeiladu ar Ynys Môn.

heddweithredu:

Am fwy o wybodaeth ac i ymuno â'r ymgyrch, gweler <http://stop-wylfa.org>, facebook: Stop Wylfa - No Nuclear in Wales, PAWB d/o Phil Steele t: 01248 490715 e: phil_steele@btinternet.com

Hinkley C – trydan rhy ddrud i'w fesur?

Gwelodd mis Hydref nifer o brotestiadau gwych ar safle niwclear Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf – dim ond 15 milltir fel y chwytha'r gwynt o arfordir de Cymru.

Wrth i Arlywydd China ymweld â Lloegr, datgelwyd y byddai'r adweithyddion arfaethedig a rangyllidir gan Ffrainc (EDF) a China yn

costio cymaint ag £20 biliwn i gwsmeriaid mewn cymhorthdal. Roedd llywodraeth San Steffan wedi gwadu y telid unrhyw gymhorthdal yn flaenorol. Byddai £22 biliwn o iawndal yn daladwy i EDF a llywodraeth China hefyd, pe gorfodid i'r orsaf gau cyn y dyddiad penodedig.

Un diwrnod gwyntog ym mis Gorffennaf eleni, daeth 80% o drydan yr Almaen o ynni adnewyddadwy. Chwedl yr hysbyseb, Vorsprung durch Technik: ymlaen trwy dechnoleg.

Eliffant gwyn

Mewn protest hyfryd i 'gladdu eliffant gwyn niwclear Hinkley C' ar Hydref 9fed, roedd y



siaradwyr yn cynnwys y gweithredwr Theo Simon, Molly Scott-Cato, ASE Gwydd De-orllewin Lloegr, a Dennis Baupin, Is-lywydd Cynulliad Ffrainc.

Ffordd ddrud i nunlle

Yn oriau mân bore'r 19eg o Hydref, fis wedi i George Osborne gyhoeddi buddsoddiad China yn y gwaith, adeiladodd protestwyr wersyll gwrth-niwclear ar gylchfan ger clwydi safle adeiladu gorsaf niwclear Hinkley C, wedi ei addurno gan yr eliffant gwyn enwog hwnnw a baneri mewn Tsieinëeg yn galw am roi'r gorau i'r project niwclear.

Ar ôl cyflwyno gorchymyn troi allan i grŵp Stop Hinkley yn gofyn iddynt fynd oddi yno, a wrthodwyd wrth gwrs, sylweddolodd EDF ar yr achlysur hwn, gyda'r ymweliad o China a'r holl sôn am record hawliau dynol China, na fyddai symud y protestwyr yn edrych yn dda. Cytunodd wedyn y gallai'r protestwyr aros yno am 4 diwrnod arall, oni fyddai unrhyw newid... fel ymweliad â'r safle gan Arlywydd China efallai?

heddweithredu:

Nid dim ond yn ein gardd gefn, ond ar garreg ein drws. Er mwyn cyfranogi, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am y protestiadau, gweler facebook: StopHinkley

Gwynlws y Gwrachod: i fenywod yn unig, gweler facebook: witchwatchatHinkleyPoint



Niwclear = Lloerig

Mae Gwynlws Gwrachod y Lleud Lawn yn digwydd ger Hinkley Point bob mis hefyd.

Hofrenyddion Angau yn Llanbedr

Dechreuwyd arbrofi â dronau milwrol yn Llanbedr ym mis Mai, pan hedfanwyd drôn-hofrennydd mawr (llyngesol) o'r maes awyr.

Un o ddefnyddiau'r peiriannau hedfan di-beilot adain-gylchdro (RWUAS) yma yw'r hyn a elwir yn llednais yn 'ymyriad'. Gellir lansio a glanio'r drôn hwn ar longau, a gosod 'pecyn offer cyrch cynhwysfawr' arno.

Bydd y newyddion yma'n syndod i bobl leol ac ymgyrchwyr yn ogystal ag i reolydd stad Maes Awyr Llanbedr, Jason Coleman a ddywedodd, wrth dystio yn achos llys Protestwyr Dronau Llanbedr ym mis Medi, fod gan Faes Awyr Llanbedr



Hofrenyddion Angau yn Llanbedr, Mai 2015

gytundeb a oedd yn caniatáu iddynt 'gasglu cwsmeriaid' a fyddai'n ei ddefnyddio, ond gan ychwanegu nad oedd yn ymwbyddol fod 'awyrennau di-beilot neu ddronau' yn cael eu defnyddio yn Llanbedr.*

Mae'r drôn yn cael ei

ddatblygu a'i farchnata gan adran AugustaWestland y cwmni Eidalaidd Finmeccanica. <http://tinyurl.com/qx8kyqo>

Jill Gough

* Daily Post 17.09.15
<http://tinyurl.com/p2jj6e4>

Gwastraff Arian Watchkeeper Aberporth

Mae'r dronau Watchkeeper bedair blynedd yn hwyr ac wedi costio £1.2bn i'r trethdalwr, £400 miliwn yn fwy nag a ddywedwyd yn wreiddiol.

Yn 2005, croesawyd archeb y WA am 54 o ddronau brwydro Watchkeeper gan weinidogion fel 'ateb fforddiadwy'.

Hysbyswyd trethdalwyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amdiffyn ar y pryd, John Reid, y byddai archeb fwyaf Prydain erioed am ddronau yn 'allweddol i wyliadwriaeth mewn brwydrau yn y dyfodol'. Noder: mae pob drôn sbio yn ddrôn 'ymosod' o'i ddefnyddio gydag awyrennau rhyfel, gynnau mawr a thaflegrau. Erbyn Hydref 2015, dim ond 33 o'r dronau a oedd wedi cyrraedd. Defnyddiwyd 3

ar faes y gad, o blith dim ond 8 sydd o dan reolaeth y fyddin. Erbyn Mehefin eleni, roedd 21 ym Mharc Aberporth, gyda'r rhan fwyaf yn dal yn eu blychau yn stordy'r WA.

Mae dronau o Aberporth, â'u swian annifyr, yn dal i hedfan yn gyson o gwmpas gorllewin Cymru, gan arbrofi â'u hoffer targedu a sbio ar gymunedau islaw.

Ni chyfaddefodd Llywodraeth Cymru y ffaith nad yw'r £21 miliwn o arian cyhoeddus a wariwyd ar isadeiledd Parc Aberporth yn cyflogi ond uchafswm o 30 (llawn- a rhan-ams-er), a hynny ond yn achlysurol, yn dibynnu

ar bwy sy'n derbyn hyfforddiant. Dydy rhai o'r rhain ddim hyd yn oed wedi eu lleoli yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r unedau busnes yn wag ers 10 mlynedd. Datgelodd y Biwro Newyddia-duraeth Ymchwilgar* mai dim ond 6 o beilotiaid Watchkeeper a hyfforddwyd i hedfan dronau. *<http://tinyurl.com/nmk58de>



ADAR ANGAU

Pedair Llanbedr



Cafodd pedair protestwraig yn erbyn dronau orchymyn i dalu £565 yr un gan Lys Caernarfon ym mis Medi a'u rhyddhau'n amodol am chwe mis.

Roedd Anna Jane Evans, Sian ap Gwynfor, Awel Irene ac Angharad Tomos wedi peintio 'Dim Adar Angau' a 'No Death Drones' mewn llythrennau pedair-metr o uchder ar draws llain glanio maes awyr Llanbedr, ar ôl cyhoeddiad

yn gynharach eleni y byddai dronau Watchkeeper milwrol o Aberporth yng Ngheredigion yn defnyddio maes awyr Llanbedr hefyd. Ni ddigwyddodd hynny hyd yma.

Yn ddiweddar, disgrifiodd Jeremy Howitt, o QinetiQ (y cwmni arfau sy'n profi dronau a hyfforddi eu gweithredwyr yn Aberporth) arfordir Cymu fel 'maes chwarae gwyb ar gyfer datblygu dyfeisiau'.

Deg Thales yn yr Alban

Gwnaed y cysylltiadau rhwng Thales, Elbit Systems a'r Weinyddiaeth Amddiffyn (WA) yn eglur mewn llys yn yr Alban yn ddiweddar.

Dangosodd achos llys Deg Thales gysylltiad diamheuol rhwng cydrannau dronau a gynhyrchir yn yr Alban a throseddau rhyfel honedig yn Gasa. Roedd y grŵp o ddeg yn y llys am ddringo ar do ffatri Thales ac atal mynediad iddi, mewn ymateb i'r rhyfel yn Gasa. Caiff cydrannau ar gyfer dronau Watchkeeper eu cynhyrchu yno. Crogwyd baner ar y ffatri â'r geiriau 'Another Scotland is Possible: Stop Arming Israel'

arni. Gwnâi baner arall y cysylltiad rhwng y cwmni arfau Ffrengig, Thales, Elbit Systems Israel, a'r WA.

Ym mis Medi, cafwyd pump o'r Deg yn euog a phump yn ddieuog o'r drosedd o darfu ar yr heddwch. Yn sgil ymosodiadau blaenorol gan Israel ar Gasa, galwodd Gweinidog yr Alban dros Faterion Allanol, Humza Yousef, am embargo arfau ar Israel:

'Mae Llywodraeth yr Alban wedi dangos na allwn sefyll o'r neilltu tra bod sifiliaid diniwed yn cael eu lladd. Rwyf heddiw, ar ran Llywodraeth yr Alban, yn galw am atal gwerthu arfau i Israel yn ddioed.'



Buddugoliaeth i Brotestwyr

Collodd cwmni dronau yn Lloegr ei waharddiad llys yn erbyn protestwyr ym mis Hydref.

Roedd UAV Engines Cyf, sy'n eiddo i gwmni arfau mwyaf Israel, Elbit Systems, wedi gobeithio atal protestiadau ar ei safle. Dedfrydodd barnwr Uchel Lys na ddylai'r gwaharddiad, a fu mewn grym ers mis Mehefin, fod wedi cael ei ganiatáu yn y lle cyntaf.

Mae'r ffatri yn Shenstone yn cynhyrchu rhannau ar gyfer dronau a ddefnyddiwyd i ymosod ar Gasa. Cynhaliwyd llawer o brotestiadau ger y ffatri.

Dywedodd llefarydd ar ran ymgyrch 'Block the Factory': 'Elbit Systems a'i ffatrioedd arfau ddylai fod yn wynebu gwaharddiad, nid ein protest ni. Bydd penderfyniad heddiw yn fwy byth o ysgogiad i'n hymgyrch o blaid gwrthsafiad y Palestiniaid ac o blaid embargo arfau ar Israel.'

Cafodd gwrthdystiadau a gwylnosau yn erbyn dronau ac i gefnogi Palesteina eu cynnal yn Shenstone ers 2009. Restiodd Heddlu Swydd Stafford 19 o bobl yn sgil protest ger y ffatri ym mis Gorffennaf.

heddweithredu:

Cadwch mewn cysylltiad â'r ymgyrch, gweler ein tudalen facebook: Rhwydwaith Ymgyrch Dronau Cymru/Drone Campaign Network Cymru; www.dronecampaignnetwork.wordpress.com

Ray Davies 1930 – 2015

Bywyd mewn brwydr a chân

Dathlwyd bywyd ac ymrwymiad ein cyfaill a'n cymrawd ac Is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies, â chaneuon a straeon mewn digwyddiad yn y Deml Heddwch, Caerdydd ym mis Gorffennaf.

Mae DVD o'r achlysur cofiadwy ar gael yn awr, yn cynnwys caneuon o'r lluo o ymgyrchoedd cyfiawnder cymdeithasol, heddwch a gwrth-niwclear y bu'n ymwneud â nhw, y byddai'n eu canu gyda Chôr Cochion Caerdydd. Mae lle amlwg i'r côr ar y DVD, wrth gwrs, ac mae'r caneuon yn cynnwys 'Miners Lifeguard', 'Solidarity Forever', 'Nkosi Sikelele', 'The Wall', ac 'Yma o Hyd'. Mae llawer o bobl eraill y cyffyrddodd Ray â'u bywydau yn talu teyrnged hefyd.

Nid dim ond cofio Ray yw diben yr areithiau a'r caneuon ysbrydoledig ar y DVD – er ei fod fod yn cynnwys rhai straeon gwyach am ei orchesthon dros y blynyddoedd. Maent yn siwrnai hyfryd trwy fyd ymgyrchu'r 50 mlynedd diwethaf, ac yn ein cyfeirio ymlaen at ble a sut y byddai Ray wedi dymuno i ni ddwyn yr ymdrech rhagddi. Da chi, prynwch y DVD.

Bydd unrhyw elw o werthiant y DVD yn mynd at Apêl Liff Ray Goch, i sicrhau y gwneir ei annwyl Neuadd y Gweithwyr ym Medwas yn hygyrch i'r holl gymuned.

Tan y 31ain Tachwedd, byddant ar gael am bris arbennig o £6 (lleiafswm) ynghyd â £1 am gludiant.

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â:

Wendy Lewis, 172 Pandy Rd, Bedwas, Caerffili CF83 8EP
t: 07415 899 661

e: wendya.lewis@sky.com neu corcochion@gmail.com

I gyfrannu at Apêl Liff Ray Goch, ewch i:


www.justgiving.com/bedwasworkmenshall

**'Ry'n ni yma o hyd,
Er gwaetha pawb a phopeth,
Er gwaetha pawb a phopeth
Ry'n ni yma o hyd.'**

Ray Davies

1930 – 2015

A life in song and struggle



Recorded on July 4th, 2015
in the Temple of Peace, Cardiff
with Côr Cochion

Alan Mackinnon 1946 – 2015

Roedd Alan yn feddyg teulu yn Glasow ac yn ymgyrchydd penigamp.

Fel Cadeirydd ac Ysgrifennydd CND yr Alban ers blynyddoedd lawer, bu'n ymgyrchu dros ddiafogi, heddwch a chyfiawnder ers mwy na thri degawd. Cyd-drefnodd Alan brotestiadau a daeth â chynrychiolwyr cymdeithas ddinesig yn yr Alban ynghyd i herio'r ymateb a ofnid gan America i 9/11. Yn bersonol, cefnogai Blaid Gomiwnyddol Prydain yn wleidyddol, ond gallodd ddwyn ynghyd gynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol eraill, undebau llafur, a grwpiau crefyddol i gydweithio dros heddwch a diafogi niwclear.

Wrth ymdrechu i adeiladu gwrthwynebiad i Trident, ysgogodd Alan farn y cyhoedd ac roedd yn aelod allweddol o weithgor 2008-2009 Llywodraeth yr Alban ar yr Alban heb Arfau Niwclear. Ar ran CND yr Alban, rhannodd lwyfan gyda Jill Gough, CND Cymru, yn y PANA (Cynhadledd Heddwch a Niwtrialaeth Iwerddon) yn Nulyn yn 2008. Meddai Jill: 'Roedd Alan yn weledydd ac yn ddyn deallus, yn gwbl ymroddedig i'r achos. Roedd yn ddiymhongar, heb unrhyw awydd i'w hyrwyddo'i hun fel unrhyw fath o arweinydd neu bersonoliaeth. Collasom gymrawd addfwyn, doeth a chryf.'

ALAN MACKINNON

4TH AUGUST 1946 - 18TH SEPTEMBER, 2015



Dydd y Cofio

Cynhaliwyd sawl digwyddiad dros Heddwch mewn trefi ledled Cymru ar Ddydd y Cofio eleni.

Y mwyaf nodedig, efallai, oedd y cyntaf i'w gynnal ar y cyd â'r Llang Brydeinig, yn Aberystwyth.

Longyfarchiadau i Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth a negyddodd o flaen llaw gyda'r Llang i dorri tir newydd fel hyn. Gosodwyd torchau pabi gwyn gan Gyngor Tref Aberystwyth, Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth, Menywod mewn Du, Côr Gobaith a Chymdeithas y Cyfeillion (y Crynwyr).

Gosododd Grŵp Heddwch Sir Benfro dorchau pabi gwyn a choch wrth droed Croes Landsger hardd y cerflunydd Howard Bowcott yn Arberth mewn cwrdd mwyn, aml-ffydd i goffáu holl ddioddefwyr rhyfel. Cofiwyd nid yn unig y lluoedd arfog ond sifiliaid sy'n colli eu cartrefi, eu bywoliaeth a'u teuluoedd, ffoaduriaid a orfodwyd i ffoi, rhai y llygrwyd eu tir gan filitariaeth a pharatoadau at ryfel, a dioddefwyr sy'n byw mewn cymdeithas sydd fel pe bai'n derbyn bod trais a'r bygythiad o ladd torfol yn dderbyniol.

Yn sicr, ni chafod rhyfel ei glodfori. Darllenodd Cerwyn Davies, o Gymdeithas Waldo, ddwy o gerddi'r bardd, sef 'Cofio' a 'Tangnefeddwyr'. Cefnogodd Simon Thomas AC y digwyddiad.



Arberth ▲

Aberystwyth ▼



Archifau Heddwch Cymru

Roedd y diweddar David (Dai) Morris ASE yn Gadeirydd CND Cymru o 1990 i 2001.

Mae Llyfrgell y Glowyr wedi cyfrannu rhai o'i bapurau i Archif Wleidyddol Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol yn ddiweddar. Mae papurau Dai yn adlewyrchu ei gymgyrchu diflino o blaid diarfogi niwclear a heddwch, cymorth i wledydd sy'n datblygu, lles anifeiliaid a datganoli. Mae'r ymgyrchwyr oes Thalia and Ian Campbell, sir Benfro, wedi ychwanegu hefyd at y casgliad Campbell sydd eisoes yn yr Archif Wleidyddol. Mae'r cyfraniadau hyn yn cynnwys deunydd yn ymwneud â'r Blaid Lafur, y mudiad heddwch, CND, yr amgylchedd, ffeministiaeth, a phrotestiadau ac achlysuron coffáu Comin Greenham.

heddweithredu:

Sefydlwyd Archif Wleidyddol Cymru ym 1983 i gyd-drefnu casglu tystiolaeth ddogfennol o bob math ynglŷn â gwleidyddiaeth yng Nghymru. Cesglir cofnodion a



phapurau pleidiau gwleidyddol,
gwleidyddion, mudiadau
lled-wleidyddol, ymgrychoedd
a grwpiau pwysu; taflenni,
pamffledi, manion, posteri a
fotograffau. Mae adran CND
Cymru yn yr Archif eisioes.
Gall straeon gael eu colli am
byth! Peidiwch â thafu unrhyw
ddeunydd ymgrychu.
Cysylltwch â'r Archif:
Rob Phillips 01970 632 984

Gogledd Cymru – Syria: Ewyllys Da, Cydgadernid a Chyfeillgarwch

Sefydlwyd grŵp cefnogi Cymru/Syria newydd yng nqogledd Cymru.

Mae'r grŵp yn bwriadu cynnal nifer o ddigwyddiadau a fydd yn cynnig cymorth ymarferol i bobl ddadleoledig Syria, datlu ei diwylliant, archwilio'r hanes sy'n gefndir i'r sefyllfa bresennol, dadansoddi a thrafod y wleidyddiaeth – ac edrych ymlaen tuag at ddyfodol gwell. Gobeithio y bydd hon yn ffordd ymarferol o goleddu'r unig werthedd a all drechu barbareidd-dra DAESH, terfysgaeth wladol, bomiau a gemau pŵer rhyngwladol.

Mae'r rheini sy'n rhan o'r fenter yn cynnwys Mwslimiaid (yn cynnwys Syriaid lleol), Cristnogion, dyneiddwyr, pobl seciwlar a qweithredwyr.

heddweithredu:

Croeso i bawb ymuno â ni.
Cysyllter â Phil Steele:
e: phil_steele@btinternet.com
t: 01248 490 715

Gweithgaredd Gwrth-niwclear yn India

Bu Pradeep Indulkar yn gweithio yn niwydiant niwclear India am 11 mlynedd.

Cefnodd ar ei swydd fel peiriannydd
mecanyddol ar ôl gweld cymaint o'i gydweithwyr
yn dioddef o broblemau iechyd. Yn ddiweddar,
bu'n teithio Ewrop yn dangos dwy ffilm o'i waith.

Ffilm ddogfen yw 'High Power' sy'n dangos effeithiu gorsaf bŵer niwclear Tarapur, ar arfordir gorllewinol India, ar y boblogaeth a'r amgylchedd lleol. Enillodd y ffilm Oscar Melyn yn yr Wyl Ffilm Wraniwm Ryngwladol, Brasil, yn 2013, ac fe'i dangoswyd yn eang ym mhedwar ban.

Mae 'Jaitapur Live' yn dogfennu hynt Mudiad y Bobl yn erbyn yr ymgais i adeiladu chwe Adweithydd dan Bwysau Ewropeaidd yn Madban, de-orllewin India. Dyma'r union adweithyddion, a ddyluniwyd gan Areva i'w hadeiladu gan EDF, a arfaethir ar gyfer Hinkley C, yr ochr draw i Fôr Hafren o Abertawe.

heddweithredu:

Os hoffai unrhyw un fenthycha DVD o'r ffilmiau hyn, da chi, cysylltwch â swanseaend@phonecoop.coop

DYDDIADAU DYDDIADUR

Tachwedd 28 1pm

ABERYSTWYTH

Gorymdaith Hinsawdd y Bobl

Y penwythnos yma, bydd pobl ym mhedwar ban y byd allan ar y strydoedd yn galw ar arweinwyr llywodraethau ar bob lefel i ymrwymo i ynni adnewyddadwy 100% – nid ynni niwclear. Ar Dachwedd 30ain, bydd arweinwyr y byd yn cwrdd ym Mharis yn y Gynhadledd COP21 i ddechrau negydu'r cytundeb hinsawdd bydeang nesaf.

<http://tinyurl.com/qyx64rp>

Tachwedd 28 1.30pm ymlaen

CAERDYDD cwrdd yn Sgwâr

Callaghan

Beicio dros y Blaned: Taith Feiciau gyda rali i ddilyn y tu allan i'r Senedd. Beicio o'r Sgwâr i lawr i'r Senedd. Rali ar risiau'r Senedd: 2.00pm – 3.00pm. Dewch â beiciau a baneri – digwyddiad i'r holl deulu. Os nad ydych am feicio, dewch i'r Senedd i groesawu'r beicwyr am 2pm!

<http://tinyurl.com/qj6qaw2>

Tachwedd 28 2pm

ABERTAW Canolfan yr

Amgylchedd, Stryd y Pier, SA1 1RY

Ffilm: The Age of Stupid

Tocynnau £5 – os na allwch dalu, cysylltwch ag Emergence 07555 984986. Dewch â brechdanau gyda chi. Te a choffi ar werth. www.emergence-uk.org/#coming-up

Rhagfyr 1 6pm ar gyfer 6.30pm

CAERDYDD Yr Abacus, Wood Street

United in Anger: A History of ACT UP

Noson Ffilmiau Fisol Cynulliad y Bobl, Caerdydd, sesiwn arbennig ar gyfer Dydd AIDS Rhyngwladol. Trafodaeth i ddilyn. <http://tinyurl.com/pvswm3c>

Rhagfyr 2 7pm

CAERDYDD Y Deml Heddwch

The Sustainable Development

Goals and the Paris Climate Summit

Yr Athro Susan Baker, Athro Gwyddor Gymdeithasol yr Amgylchedd ym Mhrifysgol Caerdydd ac Athro'r Brenin Carl XVI mewn Gwyddoniaeth Amgylcheddol (Sweden), ar achlysur Uwch-gynhadledd Hinsawdd Paris. Croeso i Bawb. Trefnwyd gan CCU Caerdydd

Rhagfyr 3 bore

CAERDYDD Gwesty'r Park Inn,

Stryd Mary Ann

Fforwm Polisi Cymru: Blaenoriaeth ar gyfer sector ynni Cymru – buddsoddi, iadeiledd a phwerau datganoledig. Cyfranwyr yn cynnwys cynrychiolwyr y diwydiant niwclear. Siaradwr gwadd: Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Da chi, dewch i ymuno â'r wynnos dawel, groesawgar y tu allan: Cysyllter ag CND Cymru: gweler t. 16. <http://tinyurl.com/pykqq8f>

Rhagfyr 5 2pm

ABERTAW Theatr Volcano, 27-29

Y Stryd Fawr, SA1 1LG

Ffilm: This Changes Everything

Manylion fel Tachwedd 28, uchod.

Rhagfyr 13 11am - 3pm

CAERDYDD Y Deml Heddwch

Gŵyl Dathlu Hawliau Dynol

Gweithgareddau ar gyfer pob oed. Croeso i bawb.

Ionawr 22-23

Lobi Etholaeth ynglŷn ag Olynydd i Trident

Da chi, trefnwch i gwrdd â'ch AS yn y gymhorthfa leol i barhau â'r drafodaeth a'r pwysau o blaid pleidlais yn erbyn Trident. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i'r bleidlais ddigwydd ar ôl etholiadau mis Mai ond cofiwch – gallai ddigwydd unrhyw bryd, felly mae angen i ni fod yn weithgar nawr.

Chwefror 10 7pm

CAERDYDD Y Deml Heddwch

Ymateb Cymru i Ffoaduriaid

Y Parch. Aled Edwards, Pobl Ddadleoledig a Cytun (Cyngor Eglwys Cymru). Croeso i Bawb. Trefnwyd gan CCU Caerdydd

Chwefror 27 Hanner dydd

LLUNDAIN Hyde Park Corner

Stop Trident! Decision Time 2016

Gwrthdystiad a drefnir gan CND

Prydeinig, gyda chymorth CND

Cymru. Gweler t. 2

Awst 1 – 8 Y FENNI Y Babel

Heddwch – **Eisteddfod Genedlaethol**

Cymru. Angen cymorth gan Gymry

Cymraeg a dysgwyr! Cysyllter â Brian

Jones: gweler t. 16

Margaret Innocent

Bu farw "ein Margaret danllyd, hardd" (chwedl Beaty Smith) o Gôr Cochion Caerdydd wedi salwch byr.

Byddai Margaret allan ar y strydoedd ac mewn protestiadau fel arfer, yn canu gyda'r côr. Mewn dathliad bendigedig, canodd Côr Cochion Dros Cymru'n Gwlad a daeth y digwyddiad i ben gyda phawb a oedd yn bresennol yn canu'r Faner Goch.

Gwelir colli Margaret yn fawr iawn.



Eisteddfod 2015

Ymunwyd ag CND Cymru a Chymdeithas y Cymod yn y Babell Heddwch eleni gan 'Cymru dros Heddwch'.

Gobeithir parhau â'r trefniant hwn am y blynyddoedd nesaf. Cynhaliwyd digwyddiadau yn ystod yr wythnos i gofio Hiroshima, lansio llyfr am hanes can mlynedd cyntaf Cymdeithas y Cymod, a chyfarfodydd ar addysg heddwch ac Academi Heddwch Cymru.

Mae fel pe bai 'na ddiddordeb cynyddol mewn materion niwclear. Gwerthodd CND Cymru lwyth o fathodynau a sticeri CND Cymru a bu bron i ni redeg allan o'n holl daflenni a phamffledi – yn cynnwys taflen newydd



PAWB ar gysylltiadau rhwng arfau niwclear a gorsafoddd pŵer niwclear. Diolch

yn fawr i bawb a helpodd i redeg y stondin : aelodau CND Cymru Monica, Medi, Llinos, Jen, Dalwen a Nesta Wyn, a chefnogwyr PAWB Robat, Gwyn, Dylan, Efa, Sioned, Emyr, a Non.

heddweithredu:

Heb wirfoddolwyr i helpu, byddai'n amhosibl cynnal stondin CND Cymru yn yr Eisteddfod. Felly, i wirfoddoli ar gyfer Eisteddfod 2016 yn Y Fenni, da chi, cysylltwch â Brian Jones
brian.jones@phonecoop.coop

HEDDWCH

yw cylchgrawn yr **Ymgrych Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru** (CND Cymru) **golygydd:**

Jill Gough
cyfiethydd:
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk
cynhyrchu a phostio:
Redkite Print
07810 566 919
redkiteprint@thefreeflyer.com

Os oes gennych unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth – neu sylwadau – i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf, anfonwch nhw i heddwch@cndcymru.org

Cyhoeddir y rhifyn nesaf: Gwanwyn 2016.

*Nid yw cynnwys **heddwch** o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisiau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu gyfraniadau at y **golygydd**.*

Papurau Cefndir CND Cymru

Papurau cefndir eraill ar gael

1. Henry Richard AS
 2. Chelsea Manning
 3. Adar Angau dros Aberporth
 4. Trident, Bom Prydain
 5. Effeithiau Arfau Niwclear
- Copiau ar gael trwy'r post. Am un copi, anfonwch amlen C5 (maint A5) â stamp a chyfeiriad arni at CND Cymru. Am bris niferoedd mwy, cysyllter ag CND Cymru: 07810 566 919 jon@thefreeflyer.com*

CYSYLLTIADAU

CND



CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgrychu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.

CYSYLLTIADAU

Brian Jones

01792 830 330
swanseacond@btinternet.com

Duncan Rees

07774 268 371
Duncan.rees01@gmail.com

George Crabb

01446 774 452
georgecrabb@phonecoop.coop

trysorydd, aelodaeth ac aelodau:

CND Cymru
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

ysgrifenydd cenedlaethol:

Jill Gough,
CND Cymru,
Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188
heddwch@cndcymru.org
twitter: @cndcymru
www.cndcymru.org
facebook: cndcymru